# Ffonau symudol mewn ysgolion

Canllawiau drafft i helpu ysgolion i wneud rheolau clir a theg



# Cynnwys


Am y canllawiau yma ........ 3

Pam mae ysgolion angen rheolau am ffonau symudol ........ 4

Ar gyfer pwy mae’r canllawiau drafft yma ........ 6

Beth ddylai ysgolion ei wneud ........ 7

Gwahanol ffyrdd mae ysgolion yn gallu cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol ........ 8

Pethau y dylai ysgolion feddwl amdanyn nhw ........ 11

Gwneud y polisi ........ 13

Rhoi’r polisi ar waith ........ 14

Rolau a chyfrifoldebau ........ 15

Adolygu’r polisi ........ 16

Defnyddio ffonau symudol yn ddiogel ac yn gyfrifol ........ 17

# Am y canllawiau yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru. Dyma fersiwn sy’n Gyfeillgar i Ieuenctid o’n canllawiau drafft ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau i ysgolion gyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n ei feddwl.**

Darllenwch y canllawiau drafft yma. Yna anfonwch eich barn i ni gan ddefnyddio’r ffurflen ymateb.

Lle mae’r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Ebost: [CMIA.SATE@llyw.cymru](mailto:CMIA.SATE@llyw.cymru)



# Pam mae ysgolion angen rheolau am ffonau symudol

Mae ffonau symudol yn gallu bod yn ddefnyddiol, ond maen nhw hefyd yn gallu achosi problemau mewn ysgolion.

## Er enghraifft, gall ffonau symudol:

- Bod yn tynnu sylw.
- Gwneud bwlio yn waeth.
- Effeithio ar iechyd meddwl.
- Effeithio ar beth rydych chi'n ei gyflawni yn yr ysgol.
- Effeithio ar eich cwsg a'ch lefelau egni yn yr ysgol.
- Lleihau faint o weithgarwch corfforol rydych chi'n ei wneud.



**Ond, rydyn ni'n gwybod bod technoleg ddigidol yn bwysig pan gaiff ei defnyddio yn y ffordd gywir. Gall ffonau symudol:**

- Helpu i'ch cadw'n ddiogel.
- Eich helpu i reoli eich anghenion meddygol.
- Cael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer dysgu.

Pan fydd ysgolion yn gwneud rheolau ffôn symudol, mae angen iddyn nhw feddwl am yr holl bethau yma.



# Ar gyfer pwy mae'r canllawiau drafft yma

Mae'r canllawiau drafft yma ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg yn bennaf.

## Mae hyn yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol.
- Llywodraethwyr ysgol.
- Arweinwyr ysgol.
- Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- Ysgolion annibynnol.

Dylid dweud wrth rieni, gofalwyr a dysgwyr hefyd beth ydy rheolau'r ysgol.



# Beth ddylai ysgolion ei wneud

Dylai pob ysgol yng Nghymru gael ei pholisi ffôn symudol ei hun. Set ysgrifenedig o reolau ydy polisi.

## Dylai'r polisi helpu:

- Cadw dysgwyr yn ddiogel.
- Cefnogi dysgu.
- Cefnogi lles.
- Lleihau bwlio.
- Gwneud rheolau'n glir i bawb.
- Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg.

# Gwahanol ffyrdd mae ysgolion yn gallu cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol

Dylai ysgolion ddewis y dull sy'n gweithio orau i'w dysgwyr.

## Dewisiadau

### Dim ffonau symudol yn yr ysgol

Dyma ffordd glir a hawdd o reoli'r defnydd o ffonau symudol.

Ond gall wneud cyswllt brys yn anoddach.

Fe fyddai angen i ysgolion feddwl am ddysgwyr sy'n defnyddio eu ffonau symudol i reoli cyflyrau meddygol fel diabetes.

## Gofyn i ddysgwyr gyflwyno eu ffonau symudol pan fyddan nhw'n cyrraedd yr ysgol

Mae hyn yn meddwl bod dysgwyr yn gallu defnyddio ffonau symudol cyn ac ar ôl ysgol.

Fe fyddai'n meddwl nad ydy ffonau'n tynnu sylw mewn ystafelloedd dosbarth ac yn ffordd hawdd o gyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol.

Gall hyn gymryd llawer o amser i'w drefnu. Fe fyddai angen i'r staff reoli hyn a gwneud yn siŵr bod lle diogel i storio ffonau. Gallai bod risg o golli neu ddifrodi ffonau symudol.

## Cadw ffonau symudol mewn loceri neu le diogel

Mae ffonau symudol yn cael eu cadw mewn lle diogel tan ddiwedd y dydd.

Gallai dysgwyr ddefnyddio eu ffonau symudol wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno.

Fe fyddai hyn yn costio arian ac amser staff i'r ysgol.

## Byth yn eu defnyddio, byth yn cael eu clywed

Mae dysgwyr yn cadw ffonau symudol gyda nhw, ond ni ddylid byth eu defnyddio na'u clywed.

Rhaid bod canlyniadau i ddysgwyr sy'n defnyddio eu ffonau symudol yn yr ysgol.

Mae hyn yn anodd ei fonitro. Gallai ffonau symudol gael eu camddefnyddio.

## Ffonau symudol sydd yn cael eu defnyddio mewn mannau penodol neu ar adegau penodol

Gallai hyn weithio'n dda i ddysgwyr hŷn.

Mae hyn yn anodd ei fonitro. Gallai ffonau symudol gael eu camddefnyddio.

# Pethau y dylai ysgolion feddwl amdanyn nhw

- Oedran y dysgwyr. Efallai y bydd angen rheolaethau llymach ar ddysgwyr iau.
- Risgiau diogelwch fel gwylio cynnwys niweidiol a bwlio.
- Yr effaith y mae ffonau symudol yn ei gael ar ddysgu.
- Anghenion dysgwyr fel anghenion meddygol ac anghenion dysgu ychwanegol.
- Dysgwyr nad oes ganddyn nhw ffonau symudol.
- Gofalwyr ifanc a phlant sy’n derbyn gofal.
- Teithio i’r ysgol ac oddi yno.
- Teithiau ysgol.
- Sut y gellir defnyddio ffonau symudol yn ddiogel ar gyfer dysgu.

Ni ddylai unrhyw ddysgwr fod dan anfantais annheg gan bolisi ffôn symudol yr ysgol.

Dylai ysgolion gael ffordd glir i rieni neu ofalwyr ofyn am eithriad, er enghraifft, os ydy dysgwr angen ei ffôn symudol am resymau meddygol.

- Dylid cytuno ac ysgrifennu eithriadau.
- Dylai staff wybod sut i gefnogi'r dysgwr.
- Dylid trin eithriadau yn sensitif.



# Gwneud y polisi

Dylai ysgolion esbonio pam mae angen y polisi a sut y bydd yn dda i ddysgwyr.

## Fe ddylen nhw:

- Edrych ar dystiolaeth. Edrych ar beth sy'n gweithio a beth sydd ei angen.
- Gwrando ar ddysgwyr, staff, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr.
- Meddwl am eu dyletswyddau i gadw pobl yn ddiogel, trin pobl yn deg a chadw gwybodaeth yn ddiogel.
- Cysylltu'r polisi â pholisïau ymddygiad a lles.

Gall ysgolion ofyn i bobl beth maen nhw'n ei feddwl gan ddefnyddio arolygon, cyfarfodydd, grwpiau ffocws neu gynghorau ysgol.

# Rhoi'r polisi ar waith

Dylai ysgolion gyflwyno'r polisi yn glir, fel bod pawb yn deall y rheolau.

Gallan ddefnyddio pethau fel posteri, cyfryngau cymdeithasol, neu gyfarfodydd i ddweud wrth bobl am y polisi.

Gall ysgolion gyflwyno'r rheolau dros amser fel bod dysgwyr yn gallu dod i arfer â nhw.

Fe ddylen nhw esbonio beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn torri'r rheolau. Dylai canlyniadau fod yn glir, teg a phriodol.

## Er enghraifft, gallai ysgol:

- Rhoi rhybudd.
- Mynd â'r ffôn symudol am gyfnod byr.
- Siarad â'r dysgwr.
- Gorfod aros ar ôl ysgol.
- Cysylltu â rhieni neu ofalwyr.
- Cofnodi beth sydd wedi digwydd.



# Rolau a chyfrifoldebau

## Arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion

Dylai arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion wneud yn siŵr bod y polisi yn glir, yn deg ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn meddwl edrych i weld ydyn nhw'n gweithio neu a oes angen eu newid.

## Staff

Dylai staff ddilyn y polisi a helpu dysgwyr i ddeall y rheolau.

## Dysgwyr

Dylai dysgwyr ddilyn y rheolau a defnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol.

## Rhieni a gofalwyr

Dylai rhieni a gofalwyr gefnogi polisi'r ysgol ac osgoi cysylltu â dysgwyr yn ystod gwersi oni bai ei fod yn argyfwng.

# Adolygu'r polisi

Dylai ysgolion edrych i weld os ydy'r polisi yn gweithio.

Fe ddylen nhw ei adolygu'n rheolaidd, er enghraifft unwaith y flwyddyn.

## Gall ysgolion edrych ar:

- Gwybodaeth ymddygiad.
- Presenoldeb.
- Arolygon lles.
- Adborth gan ddysgwyr, staff, rhieni a gofalwyr.
- Pa mor aml mae ffonau symudol yn achosi problemau.



# Defnyddio ffonau symudol yn ddiogel ac yn gyfrifol

Dylai ysgolion hefyd ddysgu dysgwyr sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel.

## Mae hyn yn cynnwys dysgu am:

- Amser sgrîn.
- Gosodiadau preifatrwydd.
- Cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel.
- Seiberfwlio.
- Cyfathrebu yn barchus ar-lein.
- Cydbwyso amser ar-lein ac oddi ar lein.

Dylai rheolau ffôn symudol helpu ysgolion i fod yn llefydd diogel, tawel a ffocws i ddysgu.

Dylai'r rheolau amddiffyn dysgu a lles.

Dylai'r rheolau hefyd wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg.

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y  ddogfen yma yn gyfeillgar i ieuenctid. Cwblhewch ein ffurflen ar-lein i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl.





OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG55129
ISBN 978-1-80853-293-1